**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (14)**

**Dydd Iau, 27 Mehefin 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Strategaeth Troseddwyr Ifanc**

**Eitem 4**
***Bydd y Trefnydd yn cynnig cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen yr eitem ganlynol o fusnes.***
**Cymeradwyo *The Plant Breeders' Rights (Fees) (Amendment) Regulations 2002***
***NDM1095 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol,* gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10 yn cymeradwyo'r drafft o *The Plant Breeders' Rights (Fees) (Amendment) Regulations 2002*, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Esboniadol - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*

**Eitem 5**
**Cymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24, Gorchymyn Mordwyo Gwy 2002**
***NDM1092 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24, yn cytuno bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n gwneud y *Wye Navigation Order 2002*, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mercher 19 Mehefin 2002.

Cliciwch yma i weld y Gorchymyn drafft - *Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen hon ar*

*gael ar We'r Siambr.*
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Esboniadol - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*

**Eitem 6**
**Dadl ar y Cynnydd a Wnaed ar y Cynllun Datblygu Gwledig**
***NDM1093 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaetho*l yn nodi, â chymeradwyaeth, y cynnydd a wnaed yn 2001-02 wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol, coedwigo, Tir Mynydd ac, ar gyfer Dwyrain Cymru, grantiau prosesu a marchnata a Chyswllt Ffermio.

Gellir dod o hyd i'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru ar y Fewnrwyd gan ddefnyddio'r cyswllt isod:
http://assembly/agriculture/Publications/ruraldevelopmentplan/ruraldevplan_e.pdf

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)
(2)+(3)+(4)

**Gwelliant 1 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mharagraff 1:
Dileu 'yn nodi, â chymeradwyaeth, y cynnydd' a rhoi 'yn siomedig gyda'r diffyg cynnydd'

**Gwelliant 2 -  Jocelyn Davies (Gorllewin De Cymru)**
Yn llinell 1, dileu 'â chymeradwyaeth,'

**Gwelliant 3 -  Jocelyn Davies (Gorllewin De Cymru)**
Yn llinell 2, dileu 'sy'n cynnwys darpariaeth' a rhoi 'ac yn galw am ddarpariaeth ddigonol' yn ei le.

**Gwelliant 4 -  Jocelyn Davies (Gorllewin De Cymru)**
Yn llinell 3, dileu 'Dwyrain Cymru' a rhoi 'y Dwyrain' yn ei le.

**Eitem 7**
**Cynnig i Fabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol**
***NDM1094 -*** *Cynnig bod y Cynulliad* yn mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ac yn nodi y caiff ei adolygu ymhen 12 mis.

Cyflwynwyd copi o’r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yn y Swyddfa Gyflwyno ac anfonwyd e-bost ohono at yr Aelodau ddydd Mercher 19 Mehefin.

Cliciwch yma i weld y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.

**Eitem 8**
**Dadl Fer: *NDM1096* Eleanor Burnham: Fferyllwyr Cymunedol**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**